

Cais gan Abergelli Power Limited ar gyfer Prosiect Pŵer Abergelli

Cwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio a cheisiadau am wybodaeth (ExQ2)

Cyhoeddwyd ar 11 Ionawr 2019

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu cwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio (AA) a cheisiadau am wybodaeth - ExQ2.

Mae'r cwestiynau wedi'u trefnu gan ddefnyddio fframwaith yn seiliedig ar faterion, sy'n deillio o'r Asesiad Cyntaf o'r Prif Faterion a ddarparwyd fel Atodiad B i lythyr Rheol 6, dyddiedig 12 Medi 2018. Ychwanegwyd cwestiynau at y fframwaith o faterion a amlinellwyd yno wrth iddynt godi o sylwadau ac i fynd i'r afael â'r asesiad o'r cais yn erbyn polisiau perthnasol.

Mae Colofn 2 y tabl y dynodi pa Bartion â Buddiant ac unigolion eraill y mae pob cwestiwn wedi'i gyfeirio atynt. Byddai'r AA yn ddiolchgar pe gallai pob unigolyn a enwir ateb yr holl gwestiynau sydd wedi'u cyfeirio atynt, gan roi ymateb sylweddol neu nodi nad yw'r cwestiwn yn berthnasol iddynt am reswm. Nid yw hyn yn atal unigolyn nad yw cwestiwn wedi'i gyfeirio ato rhag ateb y cwestiwn hwnnw os yw'n berthnasol i'w fuddiannau.

Mae gan bob cwestiwn rif cyfeirnod unigryw sy'n dechrau gyda 2 (sy'n dynodi ei fod o ExQ2), ac yna rhif y mater a rhif y cwestiwn. Er enghraifft, mae'r cwestiwn cyntaf ynghylch materion ansawdd aer ac allyriadau wedi'i nodi fel Q2.4.1. Pan fyddwch yn ateb cwestiwn, dechreuwch eich ateb drwy ddyfynnu'r rhif cyfeirnod unigryw.

Os ydych yn ymateb i nifer fach o gwestiynau, bydd atebion mewn llythyr yn ddigonol. Os ydych yn ateb nifer fawr o gwestiynau, byddai o gymorth i'r AA pe byddech yn defnyddio tabl wedi'i seilio ar yr un hwn i drefnu eich ymatebion. Mae fersiwn o'r tabl hwn y gellir ei haddasu ym Microsoft Word ar gael ar gais gan dîm yr achos: cysylltwch ag Abergelli.Power@pins.gsi.gov.uk a rhowch Abergelli Power yn llinell pwnc eich e-bost.

Dylai ymatebion gael eu derbyn erbyn **Terfyn Amser 4: Dydd Gwener 1 Chwefror 2019**

Byrfoddau sy'n cael eu defnyddio

DC2008	<i>Deddf Cynllunio 2008</i>	LIR	<i>Adroddiad ar yr Effaith Leol</i>
Erth	<i>Erthygl</i>	ACLI	<i>Awdurdod Cynllunio Lleol</i>
DCT 1981	<i>Deddf Caffael Tir 1981</i>	MP	<i>Darpariaeth Enghreifftiol (yn y Gorchymyn Darpariaethau Enghreifftiol)</i>
BoR	<i>Llyfr Cyfeirio</i>	Gorchymyn MP	<i>Gorchymyn Cynllunio Seilwaith (Darpariaethau Enghreifftiol) 2009</i>
CG	<i>Caffaeliad Gorfodol</i>	NPS	<i>Datganiad Polisi Cenedlaethol</i>
CPO	<i>Gorchymyn Prynu Gorfodol</i>	NSIP	<i>Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol</i>
DCO drafft	<i>DCO drafft</i>	G	<i>Gofyniad</i>
EM	<i>Memorandwm Esboniadol</i>	OS	<i>Offeryn Statudol</i>
ES	<i>Datganiad Amgylcheddol</i>	YG	<i>Ysgrifennydd Gwladol</i>
AA	<i>Awdurdod Archwilio</i>	TP	<i>Meddiant Dros Dro</i>
CDLI	<i>Cynllun Datblygu Lleol</i>		

Llyfrgell yr Archwiliad

Mae cyfeiriadau yn y cwestiynau hyn sydd mewn cromfachau sgwâr (e.e. [APP-010]) at ddogfennau sydd wedi'u rhestru yn Llyfrgell yr Archwiliad. Gellir gweld Llyfrgell yr Archwiliad trwy'r ddolen ganlynol:

[Llyfrgell yr Archwiliad](#)

Caiff ei diweddarau wrth i'r Archwiliad fynd rhagddo.

Dyfynnu Cwestiynau

Dylai cwestiynau yn y tabl hwn gael eu dyfynnu fel a ganlyn:

Cyfeirnod y cwestiwn: cyfeirnod y mater: rhif y cwestiwn, e.e. mae ExQ2.0.1 yn cyfeirio at gwestiwn 1 yn y tabl hwn.

ExQ2	Cwestiwn i:	Cwestiwn:
2.0	Cwestiynau Cyffredinol a Thrawsbynciol	
2.0.1.	Yr Ymgeisydd a Chyfreithwyr Loxley	<p>Ffordd Fynediad fel Datblygiad Annatod:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. A all yr Ymgeisydd gyfeirio at unrhyw DCOs a wnaed yng Nghymru lle yr ystyriwyd bod ffordd fynediad yn annatod i'r datblygiad? ii. Mae Cyfreithwyr Loxley wedi derbyn Cyngor gan yr Uwch Gwnsler ynglŷn â'r ymagwedd a ddefnyddiwyd gan yr Ymgeisydd mewn perthynas â'r Prosiect, ac mae'r cyngor hwnnw'n dod i'r casgliad bod y Cysylltiad Trydanol a'r Cysylltiad Nwy yn annatod i'r Prosiect ac y dylent fod wedi cael eu cynnwys yn y DCO [EV-011]. A all Cyfreithwyr Loxley sicrhau bod fersiwn ysgrifenedig o'r cyngor hwn ar gael i'r Archwiliad?
2.0.2.	Dinas a Sir Abertawe (DSA) a'r Ymgeisydd	<p>Bond ar gyfer Datgomisiynu Offer:</p> <p>Mae DSA [RR-022][EV-011] yn credu y dylai bond gael ei ddarparu i dalu am gost lawn datgomisiynu, a fydd yn ad-daladwy ar ôl i'r elfen hon gael ei chwblhau, i sicrhau bod cyllid ar gael i ddatgymalu/ datgomisiynu'r prosiect yn y dyfodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> i. A all DSA gyfeirio at unrhyw DCOs a wnaed lle yr oedd bond ar gyfer datgomisiynu offer wedi'i gynnwys?

ExQ2	Cwestiwn i:	Cwestiwn:
		<p>Cyflwynwyd Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10) (PPW) ar 4 Rhagfyr 2018 ac mae'n datgan bod <i>'yr egwyddor 'y llygrwr sy'n talu' yn egwyddor gynllunio allweddol. Yn ogystal, mae Paragraff 5.2.24 yn datgan y dylai datblygiadau sy'n ymwneud ag ynni gael eu datgomisiynu ac y dylai safleoedd gael eu hadfer...dylai ACLlau ddefnyddio amodau neu rwymedigaethau cynllunio i sicrhau bod y safle'n cael ei ddatgomisiynu a'i adfer</i>".</p> <p>ii. Beth yw safbwynt yr Ymgeisydd ynglŷn â'r sylwadau ar ddatgomisiynu yn argraffiad diweddaraf PPW?</p>
2.0.3.	DSA	<p>Costau cyflawni, monitro a gorfodi:</p> <p>Bydd DSA [RR-022], sef yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI), yn gyfrifol am gyflawni, monitro a gorfodi unrhyw ofynion a osodir ar y datblygiad, yn ogystal ag unrhyw rwymedigaethau cynllunio. Nid oes darpariaeth ar gyfer codi tâl yn y DCO drafft ar hyn o bryd [APP-014].</p> <p>A yw DSA yn cytuno y dylai'r costau hyn fod yn rhan o Gytundeb Perfformiad Cynllunio (PPA) yn uniongyrchol â'r Ymgeisydd?</p>
2.0.4.	DSA	<p>CDLI sy'n Dod i'r Amlwg:</p> <p>Disgwylir Adroddiad Cyfrwymol yr Arolygydd ar 10 Ionawr 2019. A all DSA sicrhau bod copi o'r adroddiad ar gael i'r Archwiliad?</p>
2.0.5.	Yr Ymgeisydd a CNC (Cyfoeth	<p>Trwydded Amgylcheddol (EP):</p>

ExQ2	Cwestiwn i:	Cwestiwn:
	Naturiol Cymru)	<p>Mae copi o'r drwydded ddrafft ar gyfer y datblygiad ar gael ar wefan CNC [EV-012] yn: https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/permit-applications-consultations-and-decisions/current-consultations-environmental-permit-draft-decisions/drax-power-limited/?lang=cy</p> <p>Mae'r broses drwyddedu'n parhau, fel y trafodwyd yn y Gwrandawriad Mater Penodol (ISH) [EV-012]. Mae'r drwydded ddrafft a'r ddogfen benderfyniad yn cael eu hysbysebu ar wefan CNC ar hyn o bryd (y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno sylwadau yw 17 Ionawr 2019), a bydd angen i unrhyw ymatebion i'r broses ymgynghori gael eu hystyried yn rhan o'r broses drwyddedu.</p> <p>A all yr Ymgeisydd a CNC roi diweddariadau ychwanegol ynglŷn â hyn wrth i'r drwydded symud ymlaen?</p>
2.1.	<p>Dewisiadau Amgen</p> <p>Nid oes gan yr Awdurdod Archwilio gwestiynau ychwanegol ar hyn o bryd.</p>	
2.2	<p>Methodoleg Asesu Effeithiau Amgylcheddol (EIA)</p> <p>Nid oes gan yr Awdurdod Archwilio gwestiynau ychwanegol ar hyn o bryd.</p>	
2.3	<p>Caffaeliad Gorfodol, Meddiant Dros Dro ac Ystyriaethau Eraill yn ymwneud â Thir neu Hawliau</p>	

ExQ2	Cwestiwn i:	Cwestiwn:
2.3.1.	Yr Ymgeisydd	<p>Ymgwymerwyr Statudol (SU):</p> <p>Mae'r BoR [AS-002] yn cynnwys sawl SU sydd â buddiant mewn tir. A all yr Ymgeisydd:</p> <p>Ddarparu adroddiad ar gynnydd trafodaethau â phob SU a restrir yn y BoR, a rhoi syniad bras o'r raddfa amser ar gyfer sicrhau cytundeb ganddynt? Dylai Tabl 3 y Datganiad o Resymau (SoR) [APP-010] gael ei ddiweddarau erbyn pob un o derfynau amser yr Archwiliad.</p>
2.3.2.	Yr Ymgeisydd	<p>Partïon yr Effeithir Arnynt:</p> <p>A all yr Ymgeisydd ddarparu diweddiariad o Dabl 2 yn y Datganiad o Resymau [APP-010] a gynhwysir yn Atodiad 1 [REP1-010]?</p>
2.3.3.	Yr Ymgeisydd	<p>Dosbarthiad Tir Amaethyddol:</p> <p>Mae'r ffordd fynediad arfaethedig yn croesi tir sy'n cynnwys cyfres bridd East Keswick 1, sydd wedi'i nodi am briddoedd lomaidd dwfn, mân, wedi'u draenio'n dda, gydag isbriddoedd sy'n athreiddio'n araf [EV-010]. Felly, mae tir o'r math hwn yn addas i gnydau grawnfwyd a glaswelltir (yr olaf i fagu stoc).</p> <p>A yw'r Ymgeisydd yn cytuno y gellir dangos bod y tir hwn, os caiff ei asesu'n lleol, yn gyfwerth â Dosbarth 3a?</p>

ExQ2	Cwestiwn i:	Cwestiwn:
2.4.	Ansawdd Aer ac Allyriadau	
2.4.1.	Yr Ymgeisydd	Gwrthdroadau Tymheredd: A yw'r Ymgeisydd wedi ystyried effeithiau posibl gwrthdroad tymheredd ar wasgariad llygrwyr?
2.5.	Sŵn a Dirgryniad Nid oes gan yr Awdurdod Archwilio gwestiynau ychwanegol ar hyn o bryd.	
2.6.	Bioamrywiaeth, Ecoleg a'r Amgylchedd Naturiol (gan gynnwys Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA))	
2.6.1.	CNC	Statws "Coetir Hynafol": A all CNC gadarnhau statws statudol presennol y coetir i'r de-ddwyrain o'r Is-orsaf ac i'r gogledd o Ffordd Fynediad arfaethedig yr Ymgeisydd?
2.7.	Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft (DCO)	
	Roedd Atodiad G i'r Llythyr Rheol 6 [PD-005 a gyhoeddwyd ar 12 Medi 2018] yn hysbysu am Wrandawriad Mater Penodol (ISH) ynglŷn â'r DCO drafft (dDCO) [REP1-014] a gynhaliwyd ddydd Mercher 10 Hydref 2018 (ISH1). Roedd Atodiad H y llythyr hwnnw'n amlinellu rhestr o faterion a chwestiynau i'r Archwiliad yn ISH1. Cynhaliwyd ISH2 ynglŷn â'r dDCO [REP2-005] ddydd Iau 13 Rhagfyr 2018. Mae amserlen yr Archwiliad yn mynnu bod rhaid i faterion a godwyd ar lafar mewn ymateb i ISH2 gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig erbyn Terfyn Amser 3, Dydd Gwener 21 Rhagfyr 2018 . Mae'n rhaid i sylwadau ar unrhyw faterion a nodir yn y cyflwyniadau hynny gael eu darparu erbyn Terfyn Amser 4, Dydd Gwener 1 Chwefror 2019 , sef yr un terfyn amser ag ar gyfer ymatebion i'r cwestiynau hyn. Nid oes angen i	

ExQ2	Cwestiwn i:	Cwestiwn:
		<p>Bartion â Buddiant a gymerodd ran yn ISH2 ac sy'n ystyried bod eu materion eisoes wedi cael eu cyflwyno i sylw'r AA ailadrodd eu materion mewn ymateb i'r cwestiwn isod. Y lle gorau i ymateb i faterion a amlinellir yng nghyflwyniadau ysgrifenedig Terfyn Amser 3 sy'n codi o ISH2 yw sylwadau Terfyn Amser 4, yn hytrach nag mewn ymatebion i'r cwestiynau canlynol, sy'n ceisio cyfleu materion na chodwyd yn ISH2.</p>
2.7.1	DSA	<p>Terfyn Amser Gweithredol:</p> <p>Mae DSA yn cytuno bod gan y Prosiect oes ddylunio o 25 mlynedd ac mai dyna'r sail i'r asesiadau yn y Datganiad Amgylcheddol [APP-042].</p> <p>Mae DSA o'r farn bod y Prosiect wedi cael ei ddylunio ar gyfer yr oes ddylunio uchod, ac felly mae'n credu y dylai fod gofyniad sy'n cyfyngu ar oes y Gorchymyn. Mae DSA yn dadlau, heb derfyn amser, bod y caniatâd yn barhaol i bob pwrpas (mae DSA hefyd wedi codi pryderon ynglŷn â'r diffiniad eang o gynnal yn y DCO [REP2-005]) a bod yr ES wedi cael ei baratoi ar y sail fod modd gwrthdroi'r effeithiau yn y tymor canolig.</p> <p>Yn ogystal, mae gan y Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg (LEMP) [APP-036] oes o 25 mlynedd. Mae'r mesurau gwanhau draenio wedi cael ei ddylunio am gyfnod o 25 mlynedd hefyd.</p> <p>Mae DSA yn dadlau mai'r unig ffordd o sicrhau bod yr effeithiau a ystyriwyd yn gywir yw trwy derfyn amser gweithredol.</p> <p>A all DSA gyfeirio at unrhyw DCO a wnaed lle y gorfodwyd amser</p>

ExQ2	Cwestiwn i:	Cwestiwn:
		gweithredol o'r fath?
2.7.2	Yr Ymgeisydd	<p>Dechrau:</p> <p>Cododd DSA bryderon ynglŷn â darparu ffens dros dro sydd wedi'i heithrio o'r diffiniad o ddechrau'r datblygiad a'r berthynas â Gofyniad 5, sy'n mynnu bod ffensys dros dro a pharhaol yn cael eu cymeradwyo.</p> <p>A all yr Ymgeisydd egluro pa fath o ffens sydd dan sylw, pam y bydd ei hangen, am ba hyd y bydd ei hangen a'r dull o'i thynnu ymaith er mwyn sicrhau nad yw'n osgoi Gofyniad 5?</p>
2.7.3.	Yr Ymgeisydd	<p>Cynnal:</p> <p>Mae gan DSA bryderon ynglŷn â graddau'r diffiniad presennol o gynnal [EV-011]. Yn gyntaf, mae'r diffiniad yn cynnwys y termau "dileu", "ailadeiladu" a "disodli a gwella", sy'n achosi rhywfaint o bryder o'u darllen gyda'r diffiniad cyfan a'r DCO. Mae'r diffiniad yn mynd ymlaen i ddweud bod hyn yn cynnwys unrhyw ran o'r datblygiad awdurdodedig, ond nid y cyfan ohono. Mae'r datblygiad awdurdodedig wedi'i osod yn llawn yn Atodlen 1 ac mae'n cynnwys yr holl waith sy'n ofynnol, wedi'i restru'n eitemau gwaith ar wahân. Mae'r diffiniad presennol yn caniatáu ar gyfer ystod lawn o waith ar yr amod nad yw'r datblygiad awdurdodedig cyfan yn cael ei ddileu, ei ailadeiladu, ei ddisodli ac ati. Mae'r geiriad presennol yn awgrymu y gallent ailadeiladu mwyafrif y safle offer generadu am rywbeth tebyg ar yr amod nad ydynt yn newid Gwaith Rhif 1 yn gyfan gwbl. Roedd y diwygiad hwn (a gyflwynwyd erbyn terfyn amser 2 [REP2-005]) yn ceisio goresgyn pryderon y</p>

ExQ2	Cwestiwn i:	Cwestiwn:
		<p>Cyngor, ond mae'n parhau i fethu yn hyn o beth. Mae Gwaith Rhif 1 yn parhau i gynnwys gwaith amrywiol a byddai'n parhau i alluogi 95% i gael ei ddileu/disodli heb dorri'r diffiniad hwn.</p> <p>A all yr Ymgeisydd gyfeirio at DCOs a wnaed lle y defnyddir eu diffiniad o gynnal?</p>
2.7.4.	Yr Ymgeisydd	<p>Croesfannau:</p> <p>Nid yw'r LEMS [REP1-016] yn cynnwys gwybodaeth am groesfannau. Mae [REP1-017] yn rhoi gwybodaeth am un groesfan ddŵr barhaol, ond nid yw'n ymwneud â dyluniad o ran bywyd gwyllt nac yn ymdrin â chroesfannau adeiladu.</p> <p>Nid yw'r DCO [REP2-005] wedi cael ei ddiweddarau i gynnwys paramedrau.</p> <ul style="list-style-type: none"> i. Ble bydd dyluniad croesfannau dros dro yn cael ei ddarparu a sut y bydd yn cael ei gytuno a'i sicrhau? ii. A all yr Ymgeisydd gyfeirio at ble y diffinnir y gwaith hwn yn Atodlen 1 y DCO drafft [REP2-005]?
2.7.5.	Yr Ymgeisydd	<p>Gofyniad 9:</p> <p>Er y bydd y LEMS terfynol yn cael ei gymeradwyo, nid yw hyn yn golygu y byddai adolygiadau dilynol (a gynhelir yn ddiweddarach, yn amlwg) yn</p>

ExQ2	Cwestiwn i:	Cwestiwn:
		<p>cael eu cymeradwyo, felly ni fyddai gan y Cyngor reolaeth yn y dyfodol dros yr adolygiadau na'u canlyniad. Fel y nodwyd yn Dunnett (Atodiad I Cyflwyniad Terfyn Amser 2 y Cyngor [REP2-013]), y cyfeirir ato yn Ymateb DSA i'r Crynodeb Ysgrifenedig o Gyflwyniad Llafar yr Ymgeisydd, gan gynnwys Atodiadau (a gyflwynwyd erbyn Terfyn Amser 2 [REP2-012]), dylai caniatâd fod yn amlwg yn ôl pob golwg. Mae DSA yn dadlau y dylai'r Gofyniad gael ei ddiwygio i gynnwys dull adolygu a gweithrediad dilynol unrhyw waith sy'n ofynnol, ac ni ddylai gael ei adael i'r LEMS gan nad yw hwnnw'n addas i'r diben hwn.</p> <p>Beth yw barn yr Ymgeisydd?</p>
2.7.6.	Yr Ymgeisydd a DSA	<p>Gofyniad 25:</p> <p>Dywedodd yr Ymgeisydd yn y gwrandawriad DCO ar 13 Rhagfyr 2018 fod lefelau sŵn gweithredol wedi cael eu gosod 5dB uwchlaw'r cefndir e.e. 39dB yn y nos yng Nghefn Betingau. Byddai hyn yn cael ei nodweddu fel bod yn ddangosol o effaith niweidiol (BS4142) [EV-011].</p> <p>Aeth yr Ymgeisydd ymlaen i ddweud bod posibilrwydd o leihau sŵn offer pe byddai hynny'n ofynnol gan nodweddion acwstig. Mae DSA yn dadlau os yw hyn yn bosibl, y dylai'r terfynau gael eu lleihau i sicrhau nad oes effaith niweidiol yn y lle cyntaf.</p> <p>Pa gynnydd mae'r Ymgeisydd a DSA wedi'i wneud ar y mater hwn?</p>
2.7.7.	Yr Ymgeisydd	<p>Gofyniad 27:</p>

ExQ2	Cwestiwn i:	Cwestiwn:
		<p>Nid yw Gofyniad 27 (fel y'i geiriwyd ar hyn o bryd yn [REP2-005]) yn mynnu bod angen i'r strategaeth ddatgomisiynu gael ei chymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.</p> <p>Mae'r geiriad presennol yn datgan bod rhaid i strategaeth gael ei chyflwyno, ond nid oes dull o gyflawni cymeradwyaeth ysgrifenedig.</p> <p>Ailadroddodd DSA eu pryder [EV-011] ynglŷn â geiriad 27(3), na fyddai modd ei orfodi pe na byddai'r Ymgeisydd yn ceisio cael y caniatadau gofynnol, ac nid yw is-adran ychwanegol a awgrymwyd sy'n mynnu bod yr Ymgeisydd yn cyflwyno ceisiadau am y caniatadau angenrheidiol yn sicrhau y byddent yn cael eu ceisio'n weithredol.</p> <p>Beth yw barn yr Ymgeisydd?</p>
2.7.8.	Yr Ymgeisydd	<p>Y DCO a Ffefrir gan yr Ymgeisydd erbyn Terfyn Amser 7:</p> <p>Gofynnir i'r Ymgeisydd sicrhau bod y fersiwn o'r DCO drafft sydd i'w chyflwyno erbyn Terfyn Amser 7 yn y Templed Offeryn Statudol (OS) gyda'r Adroddiad Dilysu Templed OS wedi'i atodi.</p>
2.8.	<p>Yr Amgylchedd Hanesyddol</p> <p>Nid oes gan yr Awdurdod Archwilio gwestiynau ychwanegol ar hyn o bryd.</p>	
2.9.	<p>Tirwedd a Gweledol</p>	

ExQ2	Cwestiwn i:	Cwestiwn:
	Nid oes gan yr Awdurdod Archwilio gwestiynau ychwanegol ar hyn o bryd.	
2.10.	Effeithiau Economaidd-gymdeithasol Nid oes gan yr Awdurdod Archwilio gwestiynau ychwanegol ar hyn o bryd.	
2.11.	Trafnidiaeth a Thraffig Nid oes gan yr Awdurdod Archwilio gwestiynau ychwanegol ar hyn o bryd.	
2.12.	Yr Amgylchedd Dŵr	
2.12.1	Yr Ymgeisydd	Mesurau Monitro: Mae Tabl A.1 Cofrestr Mesurau Lliniaru yn cynnwys yr holl fesurau lliniaru a amlinellir yn yr ES [APP-042], ond nid oes unrhyw wybodaeth wedi'i chynnwys am waith cynnal a chadw cyfnodol arfaethedig ar y pwll gwanhau, na samplu. A all yr Ymgeisydd egluro pa gyfundrefn fonitro a gynigir a sut y bydd y mesurau hyn yn cael eu sicrhau naill ai trwy'r DCO neu gyfrwng arall?
2.13.	Cyflwr y Tir Nid oes gan yr Awdurdod Archwilio gwestiynau ychwanegol ar hyn o bryd.	

ATODIAD A

PROSIECT PŴER ABERGELLI: RHESTR O'R HOLL WRTHWYNEBIADAU I ROI GRYMOEDD CAFFAEL GORFODOL NEU FEDDIANT DROS DRO

Rhif y Gwrth. ⁱ	Enw/Sefydliad	Cyf. IP/AP ⁱⁱ	Cyf. RR ⁱⁱⁱ	Cyf. WR ^{iv}	Cyf. Dogfennau Eraill ^v	Buddiant ^{vi}	Parhaol/Dros Dro ^{vii}	Llain/Lleiniau	CA? ^{viii}	Statws y gwrthwynebiad
1	Michael Edwards	20010992	011							
2	Redisplay Ltd	20010976	012							
3	Wynne Watkins	20010975	014							
4	Abergelli Solar Ltd	20011175	018							

ⁱ Rhif y Gwrth. = rhif y gwrthwynebiad. Dyllid rhoi rhif unigryw dilyniannol i bob gwrthwynebiad a restrir yn y tabl hwn.

ⁱⁱ Y cyfeirnod a roddwyd i bob Parti â Buddiant (IP) ac Unigolyn yr Effeithiwyd Arno (AP)

ⁱⁱⁱ Y cyfeirnod a roddwyd i bob Cynrychiolaeth Berthnasol (RR) yn llyfrgell yr Archwiliad

^{iv} Y cyfeirnod a roddwyd i bob Cynrychiolaeth Ysgrifenedig (WR) yn llyfrgell yr Archwiliad

^v Y cyfeirnod a roddwyd i unrhyw ddogfen arall yn llyfrgell yr Archwiliad

^{vi} Mae hyn yn cyfeirio at rannau 1 i 3 y Llyfr Cyfeirio:

- Rhan 1, sy'n cynnwys enwau a chyfeiriadau perchenogion, lesddeiliaid, tenantiaid, a meddianwyr pob llain o dir y Gorchymyn, ac eraill sydd â buddiant yn y y lleiniau hynny neu'r grym i'w gwerthu a'u trosglwyddo, neu eu rhyddhau;
- Rhan 2, sy'n cynnwys enwau a chyfeiriadau unrhyw unigolion nad yw'r Gorchymyn yn effeithio'n uniongyrchol ar eu tir, ond "a fyddai neu a allai" fod â hawl i wneud hawliad o dan adran 10 Deddf Prynu Gorfodol 1965, o ganlyniad i weithredu'r Gorchymyn, neu Ran 1 Deddf Iawndal Tir 1973, o ganlyniad i ddefnyddio'r tir pan fydd y Gorchymyn wedi cael ei weithredu;
- Rhan 3, sy'n cynnwys enwau a chyfeiriadau unrhyw unigolion sydd â hawl i hawddfreintiau neu hawliau preifat eraill dros dir y Gorchymyn a allai gael eu dileu, eu hatal neu eu hamharu o dan y Gorchymyn.

^{vii} Mae'r golofn hon yn dangos p'un a yw'r Ymgeisydd yn ceisio caffael tir/hawliau yn orfodol neu eu meddiannu dros dro

^{viii} CA = caffael yn orfodol. Yr ateb yw 'ie' os yw'r tir yn rhannau 1 neu 3 y Llyfr Cyfeirio ac mae'r Grid Cenedlaethol yn ceisio caffael tir/hawliau yn orfodol.

Application by Abergelli Power Limited for the Abergelli Power Project
The Examining Authority's written questions and requests for information (ExQ2)
Issued on 11 January 2019

The following table sets out the Examining Authority's (ExA's) written questions and requests for information - ExQ2.

Questions are set out using an issues-based framework derived from the Initial Assessment of Principal Issues provided as Annexe B to the Rule 6 letter of 12 September 2018. Questions have been added to the framework of issues set out there as they have arisen from representations and to address the assessment of the application against relevant policies.

Column 2 of the table indicates which Interested Parties (IPs) and other persons each question is directed to. The ExA would be grateful if all persons named could answer all questions directed to them, providing a substantive response, or indicating that the question is not relevant to them for a reason. This does not prevent an answer being provided to a question by a person to whom it is not directed, should the question be relevant to their interests.

Each question has a unique reference number which starts with 2 (indicating that it is from ExQ2) and then has an issue number and a question number. For example, the first question on air quality and emissions issues is identified as Q2.4.1. When you are answering a question, please start your answer by quoting the unique reference number.

If you are responding to a small number of questions, answers in a letter will suffice. If you are answering a larger number of questions, it will assist the ExA if you use a table based on this one to set out your responses. An editable version of this table in Microsoft Word is available on request from the case team: please contact Abergelli.Power@pins.gsi.gov.uk and include Abergelli Power in the subject line of your email.

Responses are due by **Deadline 4: Friday 1 February 2019**

Abbreviations used

PA2008	<i>The Planning Act 2008</i>	LIR	<i>Local Impact Report</i>
Art	<i>Article</i>	LPA	<i>Local Planning Authority</i>
ALA 1981	<i>Acquisition of Land Act 1981</i>	MP	<i>Model Provision (in the MP Order)</i>
BoR	<i>Book of Reference</i>	MP Order	<i>The Infrastructure Planning (Model Provisions) Order 2009</i>
CA	<i>Compulsory Acquisition</i>	NPS	<i>National Policy Statement</i>
CPO	<i>Compulsory Purchase Order</i>	NSIP	<i>Nationally Significant Infrastructure Project</i>
draft DCO	<i>Draft DCO</i>	R	<i>Requirement</i>
EM	<i>Explanatory Memorandum</i>	SI	<i>Statutory Instrument</i>
ES	<i>Environmental Statement</i>	SoS	<i>Secretary of State</i>
ExA	<i>Examining Authority</i>	TP	<i>Temporary Possession</i>
LDP	<i>Local Development Plan</i>		

The Examination Library

References in these questions set out in square brackets (eg [APP-010]) are to documents catalogued in the Examination Library. The Examination Library can be obtained from the following link:

[The Examination Library](#)

The Library will be updated as the Examination progresses.

Citation of Questions

Questions in this table should be cited as follows:

Question reference: issue reference: question number, eg ExQ2.0.1 – refers to question 1 in this table.

ExQ2	Question to:	Question:
2.0	General and Cross-topic Questions	
2.0.1.	The Applicant and Loxley Solicitors	<p>Access Road as Integral Development:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. Can the Applicant point to any made DCOs in Wales where an access road was deemed to be integral to the development? ii. Loxley Solicitors have taken Advice from Senior Counsel on the approach taken by the Applicant in relation to the Project and that advice concludes that the Electrical Connection and Gas Connection are integral to the Project and should have been included in the DCO [EV-011]. Can Loxley Solicitors make a written version of this advice available to the Examination?
2.0.2.	CCS and the Applicant	<p>Bond for Decommissioning of Plant:</p> <p>CCS [RR-022][EV-011] believe that a bond should be provided to cover the full cost of decommissioning, repayable upon completion of this element, to ensure that there is funding available to dismantle/ decommission the project in the future.</p> <ul style="list-style-type: none"> i. Can CCS point to any made DCOs where a bond for decommissioning of plant was included? <p>Planning Policy Wales (Edition 10) (PPW) was introduced on 4th December 2018 and states that the <i>'polluter pays' principle is a key</i></p>

ExQ2	Question to:	Question:
		<p><i>planning principle. In addition, Paragraph 5.2.24 states that energy related developments should be decommissioned and sites restored...LPAs should use planning conditions or obligations to secure decommissioning and remediation of the site".</i></p> <p>ii. What is the Applicants view of the latest edition of PPW commentary on decommissioning?</p>
2.0.3.	CCS	<p>Discharge, monitoring and enforcement costs:</p> <p>CCS [RR-022] the Local Planning Authority (LPA) will be responsible for discharging, monitoring and enforcing any requirements imposed on the development as well as any planning obligations. Currently there is no provision for charging in the draft DCO [APP-014].</p> <p>Does CCS agree that these costs should form part of a Planning Performance Agreement (PPA) directly with the Applicant?</p>
2.0.4.	CCS	<p>Emerging LDP:</p> <p>The Inspector's Binding Report is expected on 10 January 2019.Can CCS make a copy of the report available to the Examination?</p>
2.0.5.	The Applicant and NRW	<p>Environmental Permit (EP):</p> <p>A copy of the draft permit for the development is available on the NRW website [EV-012] at:</p>

ExQ2	Question to:	Question:
		<p>https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/permit-applications-consultations-and-decisions/current-consultations-environmental-permit-draft-decisions/drax-power-limited/?lang=en</p> <p>The permitting process is on-going as discussed in the ISH [EV-012]. The draft permit and decision document are currently being advertised on the NRW website (with an end date for comments by 17 January 2019), and any responses to the consultation process will need to be considered as part of the permitting process.</p> <p>Can the Applicant and NRW provide further updates to this as and when the permit progresses?</p>
2.1.	<p>Alternatives</p> <p>The Examining Authority has no further questions at this stage.</p>	
2.2	<p>EIA Methodology</p> <p>The Examining Authority has no further questions at this stage.</p>	
2.3	<p>Compulsory Acquisition, Temporary Possession and Other Land or Rights Considerations</p>	
2.3.1.	The Applicant	<p>Statutory Undertakers (SU):</p> <p>The BoR [AS-002] includes a number of SUs with interests in land. Can the Applicant:</p>

ExQ2	Question to:	Question:
		<p>Provide a progress report on negotiations with each of the SUs listed in the BoR, with an estimate of the timescale for securing agreement from them? Table 3 of the Statement of Reasons (SoR) [APP-010] should be updated at each Examination deadline.</p>
2.3.2.	The Applicant	<p>Affected Parties:</p> <p>Can the Applicant provide an update of Table 2 in the Statement of Reasons [APP-010] contained in Annex 1 of [REP1-010]?</p>
2.3.3.	The Applicant	<p>Agricultural Land Classification:</p> <p>The proposed access road crosses land consisting of East Keswick 1 soil series which is noted for deep, well drained and fine loamy soils with slowly permeable subsoils [EV-010]. Land of this type is therefore suitable for both cereals and grassland (the latter for stock rearing).</p> <p>Does the Applicant agree that this land, if assessed locally, can be shown to be of equivalent Class 3a?</p>
2.4.	Air Quality and Emissions	
2.4.1.	The Applicant	<p>Temperature Inversions:</p> <p>Has the Applicant considered the potential effects of temperature</p>

ExQ2	Question to:	Question:
		inversion on the dispersion of pollutants?
2.5.	Noise and Vibration The Examining Authority has no further questions at this stage.	
2.6.	Biodiversity, Ecology and Natural Environment (including Habitats Regulations Assessment (HRA))	
2.6.1.	NRW	Status of "Ancient Woodland": Can NRW confirm the current statutory status of the woodland south east of the Substation and north of the Applicants proposed Access Road?
2.7.	Draft Development Consent Order (DCO)	
	Annexe G to the Rule 6 Letter [PD-005 issued 12 September 2018] provided notice of an Issue Specific Hearing (ISH) on the draft DCO [REP1-014] which was held on Wednesday 10 October 2018 (ISH1). Annexe H to that letter set out a schedule of issues and questions for Examination at ISH1. A further ISH2 on the dDCO [REP2-005] was held on Thursday 13 December 2018. The Examination timetable provides that matters raised orally in response to ISH2 are to be submitted in writing by Deadline 3, Friday 21 December 2018 . Comments on any matters set out in those submissions are to be provided by Deadline 4, Friday 1 February 2019 , which is the same as the deadline for responses to these questions. IPs who participated in ISH2 and consider that their issues have already been drawn to the ExA's attention do not need to reiterate their issues in responses to the question below. Matters set out in Deadline 3 written submissions arising from ISH2 are best responded to in Deadline 4 comments rather than in responses to the following questions, which aim to capture matters that were not raised at ISH2.	

ExQ2	Question to:	Question:
2.7.1	CCS	<p>Operational Time Limit:</p> <p>CCS agrees that the Project has a design life of 25 years and that this is the basis of the assessments within the Environmental Statement [APP-042].</p> <p>CCS considers that the Project has been designed for the above design life and is therefore of the opinion that there should be a requirement limiting the lifetime of the Order. CCS argue that without a time limit, the consent is essentially permanent (CCS has also raised concerns about the wide-ranging definition of maintain within the DCO [REP2-005]) and the ES has been prepared on the basis that the effects are reversible in the medium term.</p> <p>In addition, the LEMP [APP-036] has a lifetime of 25 years. The drainage attenuation has also been designed for a period of 25 years.</p> <p>CCS argues that ensuring the effects considered are accurate can only be secured with an operational time limit.</p> <p>Can CCS point to any made DCO where such an operational time limit has been imposed?</p>
2.7.2	The Applicant	<p>Commencement:</p> <p>CCS raised concerns regarding the provision of temporary fencing that is excluded from the definition of the commencement of development and the relationship with Requirement 5 which requires approval of both</p>

ExQ2	Question to:	Question:
		<p>temporary and permanent fencing.</p> <p>Can the Applicant provide clarification with regards to what types of fencing this will comprise, why it will be required, the duration it will be required for and the mechanism for removal to ensure that it does not circumvent Requirement 5?</p>
2.7.3.	The Applicant	<p>Maintain:</p> <p>CCS have concerns with regards to the extent of the current definition of maintain [EV-011]. Firstly, the definition includes the terms “remove”, “reconstruct” and “replace and improve”, which when read together with the whole of the definition, and the DCO, causes some concern. The definition goes on to state that this includes any part of, but not the whole of the authorised development. The authorised development is fully laid out in Schedule 1 and comprises all of the works required, listed into separate work items. The current definition allows for a whole range of works providing that the whole of the authorised development isn’t removed, reconstructed, replaced etc. The current wording suggests that they could reconstruct the majority of the generating equipment site like for like providing that they don’t change the <i>whole</i> of Work No. 1. This amendment (introduced at Deadline 2 [REP2-005]) aimed to overcome the Council’s concerns but it still fails in this regard. Work No. 1 still includes various works and would still enable 95% to be removed/ replaced without breaching this definition.</p> <p>Can the Applicant point to made DCOs where their definition of maintain</p>

ExQ2	Question to:	Question:
		is used?
2.7.4.	The Applicant	<p>Crossings:</p> <p>The LEMS [REP1-016] does not include information on crossings. [REP1-017] gives information about one permanent water crossing but does not relate to design with respect to wildlife or cover construction crossings.</p> <p>The DCO [REP2-005] has not been updated to include parameters.</p> <ul style="list-style-type: none"> i. Where will design of temporary crossings be provided and how will it be agreed and secured? ii. Can the Applicant point to where these works are defined in Schedule 1 of the draft DCO [REP2-005]?
2.7.5.	The Applicant	<p>Requirement 9:</p> <p>Whilst the final LEMS is to be approved, this does not mean that subsequent reviews (obviously undertaken at a later date) would be approved so the Council would not have any future control over the reviews or their outcome. As noted in Dunnett (Appendix I to the Council's Deadline 2 Submission [REP2-013]) which is referenced in CCS' Response to the Written Summary of Applicant's Oral Submission including Appendices (submitted at Deadline 2 [REP2-012]), a permission should be clear on the face of it. CCS maintain that the</p>

ExQ2	Question to:	Question:
		<p>Requirement should be amended to include a review mechanism and subsequent implementation of any required works and shouldn't be left to the LEMS which isn't suitable for this purpose.</p> <p>What is the Applicants view?</p>
2.7.6.	The Applicant and CCS	<p>Requirement 25:</p> <p>The Applicant stated at the DCO hearing on the 13 December 2018 that operational noise levels had been set at 5dB above background e. g. 39dB nighttime at Cefn Betingau. This would be characterised as being indicative of having an adverse impact (BS4142) [EV-011].</p> <p>The Applicant went on to state that there is the potential to lower plant noise if acoustic characteristics require. CCS maintain that if this is possible, limits should be lowered to ensure there is no adverse impact in the first instance.</p> <p>What progress have the Applicant and CCS made on this issue?</p>
2.7.7.	The Applicant	<p>Requirement 27:</p> <p>Requirement 27 (as currently drafted in [REP2-005]) does not provide for the decommissioning strategy requiring the written approval of the Local Planning Authority.</p> <p>The current wording states that a strategy has to be submitted, but</p>

ExQ2	Question to:	Question:
		<p>there is no mechanism to achieve written approval.</p> <p>CCS reiterated their concern [EV-011] with regards to the wording of 27(3) which would not be enforceable if the Applicant didn't seek to obtain the necessary consents and a suggested additional subsection to require the Applicant to submit applications for the necessary consents does still not ensure that they would be actively sought.</p> <p>What is the Applicants view?</p>
2.7.8.	The Applicant	<p>Deadline 7 Applicant's Preferred DCO:</p> <p>Can the Applicant ensure that the version of the draft DCO to be submitted by Deadline 7 is in the Statutory Instrument (SI) Template with the SI Template Validation Report attached.</p>
2.8.	<p>Historic Environment</p> <p>The Examining Authority has no further questions at this stage.</p>	
2.9.	<p>Landscape and Visual</p> <p>The Examining Authority has no further questions at this stage.</p>	
2.10.	<p>Socio-economic Effects</p> <p>The Examining Authority has no further questions at this stage.</p>	

ExQ2	Question to:	Question:
2.11.	Transportation and Traffic	The Examining Authority has no further questions at this stage.
2.12.	Water Environment	
2.12.1	The Applicant	<p>Monitoring Measures:</p> <p>Table A.1 Mitigation Register contains all mitigation measures outlined in the ES [APP-042], however no information is included about proposed periodic maintenance of the attenuation pond, or sampling.</p> <p>Can the Applicant provide clarification as to what monitoring regime is proposed and how these measures will be secured either via the DCO or other means?</p>
2.13.	Ground Conditions	The Examining Authority has no further questions at this stage.

ANNEX A

**ABERGELLI POWER PROJECT:
 LIST OF ALL OBJECTIONS TO THE GRANT OF COMPULSORY ACQUISITION OR TEMPORARY POSSESSION POWERS**

Obj No. ⁱ	Name/ Organisation	IP/AP Ref No ⁱⁱ	RR Ref No ⁱⁱⁱ	WR Ref No ^{iv}	Other Doc Ref No ^v	Interest ^{vi}	Permanent/ Temporary ^{vii}	Plot(s)	CA? ^{viii}	Status of objection
1	Michael Edwards	20010992	011							
2	Redisplay Ltd	20010976	012							
3	Wynne Watkins	20010975	014							
4	Abergelli Solar Ltd	20011175	018							

ⁱ Obj No = objection number. All objections listed in this table should be given a unique number in sequence.

ⁱⁱ Reference number assigned to each Interested Party (IP) and Affected Person (AP)

ⁱⁱⁱ Reference number assigned to each Relevant Representation (RR) in the Examination library

^{iv} Reference number assigned to each Written Representation (WR) in the Examination library

^v Reference number assigned to any other document in the Examination library

^{vi} This refers to parts 1 to 3 of the Book of Reference:

- Part 1, containing the names and addresses of the owners, lessees, tenants, and occupiers of, and others with an interest in, or power to sell and convey, or release, each parcel of Order land;
- Part 2, containing the names and addresses of any persons whose land is not directly affected under the Order, but who "would or might" be entitled to make a claim under section 10 of the Compulsory Purchase Act 1965, as a result of the Order being implemented, or Part 1 of the Land Compensation Act 1973, as a result of the use of the land once the Order has been implemented;
- Part 3, containing the names and addresses of any persons who are entitled to easements or other private rights over the Order land that may be extinguished, suspended or interfered with under the Order.

^{vii} This column indicates whether the Applicant is seeking compulsory acquisition or temporary possession of land/ rights

^{viii} CA = compulsory acquisition. The answer is 'yes' if the land is in parts 1 or 3 of the Book of Reference and National Grid are seeking compulsory acquisition of land/ rights.